**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 15 Hydref 2019 yn Menter Fachwen, Cwm y Glo.</u>**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Haf Williams, Martin Jones, Clifford Williams, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Hefin Jones, Gwion Llwyd, Iola Parry, Meirwen Lloyd.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Beca Brown

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

Mrs Rhian Whiteside Thomas, Ysgol Gynradd Llanrug (ar gyfer eitem 497 yn unig)

**492. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod

**493. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**494. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**495. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Medi 2019**

Cadarnhawyd cofnodion mis Medi yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**496. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**490.** Angen presenoldeb yr heddlu yn un o gyfarfodydd nesaf y cyngor;

**497. I dderbyn cyflwyniad gan Mrs Rhian Whiteside-Thomas ar ran Ysgol Gynradd Llanrug**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mrs Rhian Whiteside – Thomas ar ran Ysgol Gynradd Llanrug. Esboniodd fod yr ysgol yn chwilio am gefnogaeth y cyngor cymuned pan mae'r ysgol yn gwneud cais am grantiau ayyb. Esboniodd ei bod yn ddisgwyliedig i blant fynd allan i chwarae y dyddiau yma, ac mae hyn yn mynd i ddod yn statudol ar ysgolion, ond pan mae tywydd drwg, nid yw hyn yn bosib yn Llanrug. Mae'r ysgol yn ceisio gwneud ceisiadau am grantiau ac un o'r amodau ar nifer o geisiadau ydi fod y gymuned yn ei gefnogi.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch am y cyflwyniad;
b) Cytuno i gefnogi unrhyw gais mae'r ysgol yn ei wneud am grantiau i hybu'r cynllun

**498. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ar gyfarfod llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Yn dilyn y cyflwyniad uchod, nid oedd adroddiad pellach ar gael. Gofynnwyd i roi'r eitem ar agenda mis Tachwedd.

**499. I ystyried os yw Cyngor Cymuned Llanrug am anelu i fod yn Gyngor gyda grym cymhwysedd.**

Adroddwyd gan y Cadeirydd, ei fod gyda'r clerc wedi mynychu cyfarfod o Un Llais Cymru ym Mhwllheli yn ddiweddar ac un o'r oblygiadau sydd yn mynd i ddod ydi fod angen y dewis gan Cynghorau Cymuned a Thref i fod yn 'Gyngor gyda Grym Cymhwysedd.

Commented [MJ1]:

Yn 2018 fe wnaeth panel adolygu annibynnol 47 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r ffordd mae cynghorau cymuned a thref yn gweithio yng Nghymru.

Bellach mae'r Gweinidog wedi cydnabod allan o'r 47 awgrymiadau y byd 3 ohonynt yn symud ymlaen ar gyfer eu cyflwyno mewn deddfwriaeth yn fuan.

Ar hyn o bryd, oherwydd 'BREXIT' mae'r broses yn arafach na'r disgwyl yn symud drwy'r Cynulliad.

Yn wreiddiol fe'i addawyd yn mis Mehefin, ond mae hyn bellach wedi symud i Hydref.

Tydi'r 3 awgrymiad yma ddim yn newyddion syfrdanol, oherwydd mae'n cadarnhau bwriad a dyheadau'r Prif Weinidog presennol am y rôl i Gynghorau Cymuned a Thref ar gyfer y dyfodol.

**2. Y tri awgrymiad**

1. Adroddiad Blynyddol gorfodol ar gyfer pob cyngor;
2. Grymoedd Cymhwysedd;
3. Hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob cynghorydd

**Adroddiad Blynyddol gorfodol ar gyfer pob cyngor**

Mae hyn yn ffordd i ymgysylltu a'r gymuned ac i hysbysu trigolion o beth mae'r cyngor yn ei wneud ar eu rhan. Bydd aelodau yn cofio i'r cyngor yma basio y byddem yn cynhyrchu pamffled i'w dosbarthu i drigolion Llanrug a Cwm y Glo cyn diwedd Mawrth 2020.

**Grymoedd Cymhwysedd**

Os bydd y cyngor yn dymuno cael ei adnabod fel cyngor sydd gyda grym cymhwysedd cyffredinol, mae'n rhaid i'r canlynol gael ei cwrdd yn ogystal;

a) Mae'n rhaid fod dau draean o'r aelodau wedi eu hethol. Mae Llanrug yn cwrdd a hyn oherwydd mae 12 aelod wedi eu hethol (does dim rhaid sefyll etholiad) a dau wedi eu cyfethol;
b) Mae'n hanfodol fod gan y clerc gymhwyster addas, e.e. CiLCA . Mae Llanrug yn cwrdd a'r maen prawf yma;

**Hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob cynghorydd**

Ei gwneud yn orfodol i pob cynghorydd fynychu hyfforddiant yn eu swydd. Mae hyfforddiant yn debygol o fod (ond nid yn gyfyngedig i), y Cod Ymddygiad, Y Cyngor fel corff, gweithio gyda cynghorau eraill sydd yn cynnwys Cyngor Gwynedd neu gynghorau cymuned cyfagos.

**Beth yw pwrpas hyn?**

Os bydd y cyngor yn llwyddo i gael y grym cynhwysol yna bydd yn caniatáu'r cyngor i wneud unrhyw beth y gall unigolyn i'w wneud oni bai ei fod wedi ei gyfyngu'n benodol gan y grym cyffredinol neu ddeddfwriaeth arall. O ran gwariant oddi tan yr uchod, mae Llywodraeth Cymru yn pennu swm ar gyfer pob blwyddyn ariannol ble gellir ei wario dan wariant a 137 sydd ar gyfer 2019 / 2020 yn £8.12 ar gyfer pob etholwr.

| | |
|---|---|
| Cwm y Glo | 440 |
| Llanrug | 1340 |
| Pontrug | 297 |
| **Cyfanswm** | **2077** |

Byddai hyn yn golygu gall y cyngor yma wario hyd at £16,865.24 (£8.12 x 2077) oddi tan yr adran yma. Wrth gwrs, nid yw yn golygu fod yn rhaid i'r cyngor ei wario dim ond fod y pŵer yna petai yn dymuno a bydd yn cryfhau statws Cyngor Cymuned Llanrug.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen a sicrhau fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cwrdd a'r meini prawf priodol ar gyfer bod yn gyngor cymuned gyda cymhwysedd

**500. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Bysiau**

Bu ymgynghoriad yn ddiweddar ar y defnydd o fysiau, a hefyd yn gofyn be fyddai colli bws yn golygu i'r trigolion. Y syniad ydi trio trefnu'r gwasanaeth yn

well, fel bod y bysiau yn rhedeg i siwtio lle mae hynny yn bosib. O bosib gwneud defnydd o fysiau llai a thacsi, ond ar yr un gost i'r defnyddwyr.

**Cynllunio**

Fel mae tai newydd yn cael ei adeiladu mae rhai eraill yn cael ei gwerthu fel tai haf neu Air B&B. Mae'r cyngor wedi comisiynu arbenigwr i weld oes modd rheoli'r gwerthiant yma, unai trwy'r system Cynllunio neu Drwyddedu. Maent yn mynd i edrych ar y math o drefniant sydd yn ei le mewn gwledydd eraill, megis Iwerddon yn un.

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at aelodau diwethaf o Bwyllgor y Neuadd i amlinellu eu bwriad i greu les newydd hefo Menter Fachwen. Os nid oes gwrthwynebiad byddant yn cysylltu hefo'r Cyngor Cymuned i sicrhau eu bod yn fodlon ildio'r lês bresennol, ac wedyn symud ymlaen i drafod a chreu lês newydd hefo Menter Fachwen. Bydd y lês yn cynnwys cymal yn dweud bydd rhaid caniatáu defnydd cymunedol o'r adeilad hefyd.

**'Bund' yn ymyl y cae chware yn Cwm**

Falch o ddweud fod y gwaith o godi'r bwnd wedi digwydd o'r diwedd, ddylai hyn osgoi llifogydd i gefnau tai Stryd y Llyn.

**Cynllun Dol Afon**

Dal i ddisgwyl i'r gwaith yn Dôl Afon gael ei wneud. Mae'r Cyngor a Chymdeithas Tai Adra wedi cytuno ar gynllun byddant yn gyd ariannu, ond i wireddu'r cynllun mae rhaid symud un o bolion Scottish Power, ac maen nhw eisiau crocbris i'w symud, disgwyl am ddiweddariad rŵan

**Llwybr aml ddefnydd o Llanrug i Pontrug**

Dwi wedi bod yn gofyn am hwn ers tipyn, mae'n ymddangos rŵan y bydd yn cael ei wneud fel rhan o gynllun ffordd osgoi Bontnewydd. Mae'r cyngor sir yn awyddus i gael llwybr aml ddefnydd i redeg o Llanberis i Gaernarfon.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**501. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**<u>Hafan Elan – Agoriad Swyddogol y Neuadd ar ei newydd wedd</u>**

Roedd yn fraint torri'r rhuban ar achlysur agoriad swyddogol y ganolfan gymdeithasol ar ei newydd wedd ar 10 Hydref. Mae bron i 40 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r ystâd agor ym 1980, a 45 mlynedd ers i mi ofyn i Gyngor Bwrdeistref Arfon ddarparu tai addas i'r henoed ar y safle cyfleus hwn ger sgwâr

y pentref. Mae'n braf hefyd nodi bod 'Adra' (enw newydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd) wedi cytuno i ychwanegu 12 lle parcio ar yr ystâd.

**Llwybr Cyhoeddus Ogwen**

Mae Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio'r wal sy'n dal y llwybr i fyny ger Ogwen. Roedd y wal gerrig a sylfaen y llwybr wedi disgyn i'r afon mewn un lleoliad. Felly, unwaith eto, mae'r llwybr yn ddiogel i gerddwyr.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**502. I ystyried cais am grant gan Eco'r Wyddfa**

Yn yr eitem yma, fe ddatganwyd diddordeb gan

Y Cynghorydd Goronwy Hughes
Y Cynghorydd Hefin Jones

ac ni chymerwyd rhan yn y penderfyniad.

**Penderfynwyd:** Cytuno i roi grant o £750 tuag at Eco'r Wyddfa

**503. Mater yn ymwneud a'r wal rhwng yr hen bost ac Ysgol Brynrefail (Cyng Haf Williams)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Haf Williams ei bod wedi derbyn nifer o gwynion parthed cyflwr rhai o'r waliau sydd gyda tyfiant sylweddol arnynt ac yn amharu ar weledigaeth trafnidiaeth. Nodwyd fod ceir yn cael eu crafu gyda gor dyfiant. Fe ddangoswyd lluniau roedd wedi eu tynnu ble roedd yn amlinellu'r broblem.

Nodwyd ymhellach fod cyflwr y wal, o gyfeiriad y sgwâr tuag at Ysgol Brynrefail yn ddrwg ac ei fod yn bylchio. Mae hyn eisoes wedi ei ddwyn at sylw Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:**

a) Diolch i'r Cynghorydd Haf Williams am ddwyn y mater i sylw'r cyngor;
b) Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd ar fyrder i leisio pryder am y sefyllfa, yn enwedig am y wal;
c) Copïo'r Cynghorydd Charles Jones i'r gwyn

**504. Cais am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned ar gyfer cynllun adeiladu (Cyng Haf Williams)**

Adroddwyd fod cais wedi dod i law gan drydydd parti ar ran adeiladwr am gefnogaeth y cyngor cymuned am gais cynllunio arfaethedig ar gyfer codi tai yn Llanrug.

**Penderfynwyd:** Yn sgil diffyg pendantrwydd am y cynllun yna i gysylltu a'r adeiladwr i drefnu cyfarfod gyda ef i geisio rhagor o wybodaeth.

**505. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod nifer dda o blant wedi cofrestru gyda'r clwb ieuenctid ac fod y trydydd person bellach wedi ei apwyntio i weithio yn y clwb.

Mae staff y clwb yn paratoi ffigyrau o ble yn union mae'r plant yn dod.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad;
b) Y Clerc i gysylltu a chynghorau cymuned cyfagos i ofyn os buasent yn ystyried cyfrannu tuag at gostau'r clwb yn sgil fod aelodau yn mynychu o'r ardaloedd yna.

**506. I drafod materion yn ymwneud a'r fynwent**

Nodwyd fod y gwaith ar y llwybrau i gychwyn

**507. I drafod materion yn ymwneud a'r meysydd chwarae**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Clifford Williams fod y ffens ar gae chwarae Nant y Glyn wedi diflannu ac fod plant yn mynd lawr i dibyn i gael pêl ac i chwarae ac ei fod yn berygl.

**Penderfynwyd:** Trefnu i gyfarfod ar y safle i weld beth gellir ei wneud.

**508. Ceisiadau Cynllunio**

**Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 21:10

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad: 19 Tachwedd 2019**